"Y Cartref Cymreig i hen Gymry".
Cystadleuol yn Eisteðf hen Eglwys yr
Annibynwyr Cymreig Hyde Park Ionawr 1 – 1926.

II

Pan oeð cymyl duon adfyd
Yn arafaið droedio'u nen.
Ac ystormyð gauaf bywyd
Yn fygythiol uwch eu pen,
Llwydrew henaint a thost Anghen,
Ac eiðilwch methiant llwyr,
I "hen Gymry" gwawrioð Seren
Ryð Oleuni yn eu hwyr.

III

Seren disgleer "Merched Cymry"
Wena iðynt dan bob loes,
Mewn godidog Nawð Frython-dy
Iw Sirioli weðill oes;
Yma cânt ymgomio'n ðedwyð
Gyda'u gilyð mewn boðhâd,
Ar faterion byd a Chrefyð,
Yn Iaith famol eu hen Wlad.